# CYNNYDD AR HAWLIAU DYNOL YNG NGHYMRU

Adroddiad Ymchwiliad 2025



**Y Grŵp Trawsbleidiol ar Hawliau Dynol**

Senedd Cymru
Welsh Parliament

# Rhagair

Fel Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Hawliau Dynol, pleser yw cyflwyno'r adroddiad hwn ar ein hymchwiliad byr, a diolch i Amnesty International UK a'r Arsyllfa ar Hawliau Dynol a Chyfiawnder Cymdeithasol am eu cymorth o ran casglu tystiolaeth a pharatoi'r adroddiad hwn.

Mae'r Grŵp Trawsbleidiol ar Hawliau Dynol wedi casglu tystiolaeth o bob cwr o Gymru, gan glywed yn uniongyrchol gan academyddion, ymgyrchwyr a sefydliadau ynglŷn â'r modd y caiff hawliau dynol eu harddel – neu eu gwadu – yn ein bywydau beunyddiol.

Lansiwyd yr ymchwiliad hwn i ateb cwestiwn syml – **a yw Llywodraeth Cymru yn cyflawni ei hymrwymiad i gryfhau hawliau dynol?**

Roedd ateb y rhanddeiliaid yn glir. Er gwaethaf ymrwymiadau mynych, nid yw Llywodraeth Cymru wedi cyflawni ei nodau uchelgeisiol i gryfhau hawliau dynol. Mae pobl yn wynebu tlodi a nawdd cymdeithasol annigonol, ochr yn ochr â rhwystrau o ran cael gafael ar ofal iechyd, tai, addysg a chyfiawnder. Ymhellach, mae gwahaniaethu uniongyrchol ac anuniongyrchol, mewn cymdeithas ac mewn systemau, yn dwysáu, gan wadu mwy fyth ar hawliau menywod, pobl anabl a phobl hil-ddiffiniedig.

Er bod peth cynnydd wedi'i wneud – yn cynnwys Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc 2011 – dyhead yn unig yw ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ymgorffori cytuniadau'r Cenhedloedd Unedig yng nghyfraith Cymru er mwyn gweithredu argymhelliad a gynhwysir yn yr adroddiad ymchwil 'Cryfhau a Hyrwyddo Cydraddoldeb a Hawliau Dynol', ac nid yw hyn wedi cael ei roi ar waith eto.

Yr hyn a'm trawodd fwyaf yn y dystiolaeth a gawsom yn yr ymchwiliad hwn yw'r galw cyson am newid. Ar draws hawliau pobl anabl, hawliau menywod, hawliau economaidd a chymdeithasol, cydraddoldeb hil a hawliau plant, yr un yw'r neges: mae angen inni wneud rhagor i amddiffyn pobl rhag gwahaniaethu ac anfantais trwy gymryd camau i ymgorffori hawliau dynol yng nghyfraith Cymru.

Mae’r dystiolaeth yn dangos methiannau o ran amddiffyn hawliau dynol: ac nid methiannau prin neu unigryw mohonynt. Maent yn symptom o broblem ddyfnach a hirdymor o fethu â chydnabod ac amddiffyn hawliau dynol ar lefel y DU, yn ogystal ag yma yng Nghymru. Heb hawliau dynol cyfrwymol y gellir eu gorfodi – heb ymgorffori hawliau dynol yng nghyfraith Cymru – mae’n amlwg bod pobl yng Nghymru yn gorfod dibynnu ar ewyllys da gwleidyddol ac ymrwymiadau polisi. Yn rhy aml o lawer, mae hyn yn methu â chyrraedd disgwyliadau hawliau dynol neu mae’n aneffeithiol gan fod gwleidyddion yn amharod i roi blaenoriaeth uchel i hawliau dynol neu’n amharod i ddyrannu’r adnoddau sy’n angenrheidiol i sicrhau y caiff hawliau dynol eu gwireddu i bawb.

Nid cofnodi pryderon yn unig a wna’r adroddiad hwn; mae’n fandad dros weithredu. Mae’n dangos y canlyniadau a allai ddod i’n rhan yn sgil oedi, ynghyd â’r niwed a achosir trwy beidio ag amddiffyn hawliau, gan danlinellu bod angen cyflawni addewidion ar frys i gryfhau hawliau dynol.

Mae’r amseru’n hollbwysig. Mae mudiad gwrth-hawliau dynol pwerus a chydgysylltiedig yn datblygu yng Nghymru a ledled y byd, gan fygwth diddymu’r rhyddid y gweithiwyd mor galed i’w ennill a bygwth ailysgrifennu’r rheolau ynglŷn â hawliau, cyrff a bywydau pwy y dylid eu hamddiffyn. Os ydym eisiau cael Cymru sy’n trysori urddas, cydraddoldeb a chyfiawnder, rhaid inni ymladd drosti.

Pan fyddwn yn amddiffyn hawliau dynol un grŵp, byddwn yn amddiffyn hawliau dynol pawb

S.A. Williams

**Sioned Williams AS**
Cadeirydd, Grŵp
Trawsbleidiol ar
Hawliau Dynol



# Crynodeb Gweithredol

Drwy gydol yr ymchwiliad hwn, clywodd y Grŵp Trawsbleidiol ar Hawliau Dynol negeseuon cyson: mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i hawliau dynol mewn polisi, ond ni chaiff yr ymrwymiadau hyn eu gwireddu'n ymarferol. Dyheadau yn unig yw nifer o'r hawliau hyn, ac nid oes gennym ffyrdd gorfodadwy o unioni camweddau.

Mae'r adroddiad hwn wedi'i seilio ar dystiolaeth a gyflwynwyd gan randdeiliaid ac mae'n asesu sut mae Llywodraeth Cymru yn cyflawni ei hymrwymiadau mewn perthynas â hawliau dynol, gan ganolbwyntio ar bum cytuniad rhyngwladol, sef: **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau, y Confensiwn ar Ddileu Pob Math o Wahaniaethu yn erbyn Menywod, y Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Ddiddymu Gwahaniaethu ar sail Hil a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.**

Mae'r dystiolaeth a gawsom yn glir. Mae tlodi, anabledd, hil a rhywedd yn croestorri i ddyfnhau anghydraddoldebau, gan gyfyngu, erydu a thramgwyddo mwy fyth ar hawliau pobl. Er bod enghreifftiau o arferion da yn bodoli, fel y ddyletswydd 'sylw dyladwy' mewn perthynas â hawliau plant, nid ydynt wedi sicrhau bod hawliau pobl yn cael eu parchu, ac nid ydynt ychwaith wedi cyflawni'r uchelgeisiau a nodwyd gan Lywodraeth Cymru.

Os ydym eisiau cael Cymru lle caiff hawliau dynol eu hamddiffyn, eu parchu a'u gwireddu – lle gall pawb fyw eu bywydau gydag urddas, rhyddid a diogelwch, heb ddioddef gwahaniaethu – rhaid inni amddiffyn yr egwyddorion hyn mewn cyfraith.

**Y prif ganfyddiadau:**

- Dyheadau yw hawliau o hyd, ac ni ellir eu gorfodi – ni all pobl yng Nghymru fynd ati'n uniongyrchol i hawlio eu hawliau pan gânt eu torri, ac mae'r elfennau sy'n eu hamddiffyn yn ddibynnol ar ewyllys da gwleidyddol a pholisïau disgresiynol.
- Mae tlodi yn tanseilio hawliau i bawb – mae tlodi yn atal hawliau dynol, gan effeithio ar addysg, iechyd, tai a bywyd teuluol.

- Mae gwahaniaethu yn rhywbeth systemig – mae ableddiaeth, anghydraddoldeb rhywedd a hiliaeth strwythurol yn effeithio ar fynediad at wasanaethau, cyfleoedd a chyfiawnder.
- Ceir diffyg cysondeb a diffyg atebolrwydd mewn gwasanaethau cyhoeddus – o ofal iechyd a thai i addysg ac eirioli, mae'r ddarpariaeth yn anghyson, nid oes ganddi adnoddau digonol, ac mae sefyllfa 'loteri cod post' yn bodoli.
- Diystyrir cyfranogiad a phrofiad bywyd – yn aml, ni chaiff lleisiau pobl anabl, menywod, plant a phobl hil-ddiffiniedig eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

# Cyflwyniad

Lansiwyd yr ymchwiliad hwn gan y Grŵp Trawsbleidiol er mwyn archwilio sefyllfa hawliau dynol yng Nghymru. Yn ystod haf 2025, gwahoddwyd rhanddeiliaid i gyflwyno tystiolaeth a oedd yn canolbwyntio ar y pynciau canlynol:

- Meysydd lle ceir bwlch rhwng nodau hawliau dynol a phrofiadau unigolion a chymunedau yng Nghymru
- Y rhwystrau mwyaf arwyddocaol sy'n atal unigolion a/neu grwpiau cymdeithasol rhag elwa ar hawliau dynol yng Nghymru
- Enghreifftiau o arferion gorau mewn rhaglenni, prosiectau neu weithgareddau sy'n hyrwyddo hawliau dynol yng Nghymru (a gynhaliwyd gan y llywodraeth neu gan sefydliadau eraill)
- Camau y dylai Llywodraeth Cymru eu cymryd i hyrwyddo hawliau dynol yng Nghymru
- ·Y graddau mae Llywodraeth Cymru wedi cyflawni ei hymrwymiad i sicrhau bod hawliau dynol yn rhan o gyfraith Cymru

Cafodd yr ymchwiliad fwy nag 20 o sylwadau ysgrifenedig. Cyflwynir y dystiolaeth o dan y penawdau sy'n berthnasol i gytuniadau'r Cenhedloedd Unedig. Fodd bynnag, mae nifer o'r materion a grybwyllwyd gan yr ymatebwyr yn berthnasol i fwy nag un cytuniad. Mae hyn yn adlewyrchu'r modd y mae hawliau'n croestorri yn ymarferol, ynghyd â natur anwahanadwy hawliau dynol. Trwy grwpio'r dystiolaeth yn y modd hwn, ceir fframwaith defnyddiol; ond mae llawer o'r dystiolaeth yn berthnasol i amryfal rwymedigaethau hawliau dynol, a dylid ei darllen gyda hyn mewn cof.

# Y cyd-destun

Mae hawliau dynol yn ganolog i lywodraeth ddatganoledig yng Nghymru. Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 – sef y fframwaith statudol cyffredinol sy'n llywodraethu datganoli – yn gwahardd Gweinidogion Cymru rhag arfer eu swyddogaethau mewn modd sy'n anghydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol neu rwymedigaethau rhyngwladol y DU, sy'n cynnwys rhwymedigaethau hawliau dynol.

Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i ymgorffori'n rhannol Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn mewn cyfraith ddomestig, gan roi dyletswydd 'sylw dyladwy' ar Weinidogion Cymru. Ers hynny, cyflwynwyd dyletswyddau 'sylw dyladwy' pellach mewn perthynas â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn trwy gyfrwng Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau trwy gyfrwng Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

Yn dilyn etholiad y Senedd yn 2021, addawodd Llywodraeth Cymru y byddai'n mynd ymhellach, gan ymrwymo i ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau a'r Confensiwn ar Ddileu Pob Math o Wahaniaethu yn erbyn Menywod. Roedd ymrwymiad Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru yn dilyn cyfres o argymhellion i gryfhau ffyrdd o amddiffyn hawliau dynol yng Nghymru, yn cynnwys:

- Yn 2017, argymhellodd arsylwadau clo adolygiad cyfnodol Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau y dylai Llywodraeth Cymru ymgorffori'r Confensiwn ar Hawliau Pobl ag Anableddau.
- Yn 2018, argymhellwyd y dylai Llywodraeth Cymru ymgorffori cytuniadau hawliau dynol ymhellach, a nodwyd yn benodol y Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau.
- Yn 2019, argymhellodd arsylwadau clo adolygiad cyfnodol y Confensiwn ar Ddileu Pob Math o Wahaniaethu yn erbyn Menywod 2019 y dylai Llywodraeth Cymru ymgorffori'r Confensiwn ar Ddileu Pob Math o Wahaniaethu yn erbyn Menywod.
- Yn 2021, argymhellodd gwaith ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru y dylid cyflwyno Deddf Hawliau Dynol (Cymru) i ymgorffori cytuniadau dethol y Cenhedloedd Unedig.

Yn yr ymchwil Cryfhau a Hyrwyddo Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, cyflwynwyd cyfres o argymhellion. Yn bwysig, roedd yr argymhellion hyn yn cynnwys argymhelliad y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth i ymgorffori cytuniadau hollbwysig yn ymwneud â hawliau dynol yng nghyfraith Cymru yn ystod tymor y Senedd 2021-2026, yn unol ag ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu.

Wrth inni nesáu at etholiad y Senedd yn 2026, mae'n amlwg na fydd y ddeddfwriaeth honno'n cael ei chyflwyno yn ystod tymor y senedd hon. Cyfrifoldeb pwy bynnag a fydd yn ffurfio llywodraeth nesaf Cymru fydd cyflawni'r argymhellion a gynhwysir yn yr adroddiad Cryfhau a Hyrwyddo Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

Nid yw'n syndod bod rhai o gasgliadau ein hymchwiliad yr un fath â chasgliadau'r ymchwil, gan adleisio'r pryderon sy'n dangos mai dyheadau yw hawliau yn aml, yn hytrach na phethau sicr y gall pobl ddibynnu arnynt. Dylid ystyried bod yr adroddiad hwn yn dystiolaeth bellach sy'n ategu argymhellion yr ymchwil.

*Mae hawliau dynol yn hawliau sy'n eiddo i bawb. Byddwn yn parchu, yn diogelu ac yn cyflawni ein dyletswyddau hawliau dynol a chydraddoldeb fel y gall pawb yng Nghymru fyw eu bywydau gydag urddas, rhyddid, diogelwch a heb wahaniaethu. Rydym yn ymrwymo i ddull o weithredu hawliau dynol sy'n rhoi pobl wrth wraidd popeth a wnawn, gan wella lles cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.*

**Datganiad Hawliau Dynol Llywodraeth Cymru, 2025**

# Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau

Clywodd y Grŵp Trawsbleidiol ar Hawliau Dynol lawer o dystiolaeth yn ymwneud â'r bwlch rhwng ymrwymiadau Cymru i bobl anabl ar y naill law, a realiti eu hawliau ar y llaw arall. Yn ôl y sylwadau, dyhead yw Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau, yn hytrach na rhywbeth y gellir ei orfodi. Heb ymgorffori'r Confensiwn yn uniongyrchol mewn cyfraith, pwysleisiodd Anabledd Cymru fod pobl anabl yn ddibynnol ar ymrwymiadau polisi y gellir eu gweithredu'n anghyson a'u hanwybyddu'n rhwydd.

*"Er gwaethaf ymrwymiadau mynych, nid yw'r Confensiwn wedi cael ei ymgorffori. Mae hyn yn gadael pobl anabl heb fframwaith cyfreithiol-orfodadwy i gynnal eu hawliau."*

**Anabledd Cymru**

**Addysg a Chynhwysiant**

Gwelir mai addysg oedd un o'r meysydd pryder mwyaf taer. Clywodd y Grŵp Trawsbleidiol ar Hawliau Dynol fod plant anabl yn cael eu heithrio'n rheolaidd o leoliadau addysg, weithiau'n ffurfiol, weithiau trwy arferion ynysu cynnil. Yn ôl Anabledd Cymru, gwneir defnydd helaeth o ataliaeth ac arferion cyfyngol:

*"Yn ogystal â chael eu heithrio o'r ysgol, mae plant ag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth yn dioddef ataliaeth ac arferion cyfyngol mewn ysgolion."*

**Anabled Dysgu Cymru**

Ychwanegodd ymgyrchwyr dros addysg gynhwysol fod yr arferion hyn yn adlewyrchu gwahaniaethu systemig dyfnach, a'u bod yn esgor ar effeithiau gydol oes.

*"Mae gwahanu ar sail gallu neu wahaniaeth yn tanseilio cydraddoldeb ac yn niweidio iechyd meddwl, perthyn cymdeithasol, a chyfleoedd yn y dyfodol."*

**Ymgyrchydd dros Addysg Gynhwysol**

**Hlechyd a Byw'n Annibynnol**
Hefyd, mae pobl anabl yn wynebu rhwystrau systemig sy'n atal eu hawl i iechyd a'u hawl i fyw'n annibynnol. Fel y rhybuddia Anabledd Dysgu Cymru:

*"Er gwaethaf ymrwymiadau i sicrhau iechyd a gofal cymdeithasol teg yng Nghymru, mae pobl ag anabledd dysgu yn dal i wynebu rhwystrau sylweddol, gan arwain at gyfraddau marwolaethau cynharach ac iechyd meddwl ac iechyd corfforol gwael, a chan beri i salwch ataliadwy droi'n salwch difrifol."*

**Anabledd Dysgu Cymru**

Cafodd y Grŵp Trawsbleidiol ar Hawliau Dynol dystiolaeth bwerus ynglŷn â'r Grŵp Bywydau Wedi'u Dwyn, sy'n cynnwys teuluoedd a chanddynt anwyliaid ag anabledd dysgu neu awtistiaeth, a gaiff eu cadw mewn ysbytai a sefydliadau arhosiad hir.

*"Mae gormod o bobl ag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth yn gaeth mewn ysbytai arhosiad hir oherwydd diffyg dealltwriaeth mewn gwasanaethau iechyd a diffyg cymorth cymunedol."*

**Anabledd Dysgu Cymru**

**Rhieni sy'n Ofalwyr**
Dywedodd rhieni sy'n ofalwyr wrth y Grŵp Trawsbleidiol ar Hawliau Dynol fod gofal di-dâl, gydol oes, heb ddim neu fawr ddim seibiant, wedi arwain at ludded a thlodi, yn ogystal â gwneud iddynt deimlo eu bod wedi'u hynysu'n gymdeithasol. Clywodd y Grŵp Trawsbleidiol ar Hawliau Dynol fod y baich hwn yn aml yn syrthio ar fenywod, gan ddwysáu anghydraddoldeb o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau a'r Confensiwn ar Ddileu Pob Math o Wahaniaethu yn erbyn Menywod.

*"Pan mae rhieni'n gofalu, mae angen i'r rhiant fod ar gael 24/7, ac efallai y bydd hyn yn parhau ar ôl i'r plentyn anabl gyrraedd byd oedolion, a phan fydd y rhiant wedi cyrraedd henaint, hyd nes na fydd modd ymgymryd â'r rôl mwyach. Nid yw'r rôl ddi-ildio a chynyddol hon yn cynnig fawr ddim cyfle i gael seibiant neu i adfer, ac mae'n ysgogi tlodi hirdymor, allgáu cymdeithasol, ac anghydraddoldebau difrifol mewn perthynas ag iechyd corfforol ac iechyd meddwl."*

**Sylwadau gan Rieni sy'n Ofalwyr**

Daeth y Grŵp Trawsbleidiol ar Hawliau Dynol i'r casgliad fod pobl yng Nghymru yn parhau i wynebu rhwystrau systemig yn ymwneud ag addysg, iechyd a byw'n annibynnol. Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau yn sefydlu fframwaith hawliau dynol sy'n cydnabod bod gan bobl anabl yr un hawliau â phawb arall, ond eu bod yn aml yn wynebu rhwystrau cymdeithasol. Mae'r cytuniad yn nodi'r hyn y mae'n rhaid i lywodraethau a chymdeithasau ei wneud i gael gwared â'r rhwystrau hyn, ac mae'n ymdrin â hawliau fel addysg gynhwysol, byw'n annibynnol, dim gwahaniaethu, ac amddiffyniad rhag trais a chamdriniaeth. Trwy ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau, byddai modd gorfodi'r hawliau hyn yn ein llysoedd a byddai modd i bobl ddwyn llywodraethau a chyrff cyhoeddus i gyfrif. Hyd nes y caiff pobl anabl amddiffyniadau gorfodadwy, bydd eu hawliau'n parhau i fod yn ddibynnol ar bolisïau disgresiynol sydd, yn rhy aml, yn methu â diwallu eu hanghenion.

**Stori Angharad**

Yn 2022 torrais fy nghoes mewn 5 lle ar ôl damwain gyda fy nghadair. Rydw i wedi torri esgyrn nifer o weithiau o'r blaen, felly dwi'n gwybod y drefn. Ar ôl mynd i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys yn fy nghadair olwyn drydan (oherwydd fy mod wedi cymryd tacsi, er fy mod mewn poen ofnadwy), cefais fy nhrin yn wael o'r cychwyn cyntaf.

Gwrthododd y meddyg roi meddyginiaeth imi i ladd y boen oherwydd y feddyginiaeth rydw i'n ei chymryd eisoes, ac awgrymodd drwy'r adeg mai person caeth i gyffuriau oeddwn i, a oedd yn chwilio am fy 'ffics' nesaf. Roedd yn meddwl fy mod yn berson annymunol â phroblem agwedd, a dywedodd hynny wrth fy PA oherwydd cymerodd amser maith imi symud o 'nghadair i'r gwely, gan fy mod i'n ceisio gwneud hynny heb feddyginiaeth lladd poen. Bu'r ymweliad hwn â'r ysbyty yn hunllef oherwydd llawer o bethau eraill hefyd. Ni chafodd fy urddas ei barchu, oherwydd roedd hi'n haws iddyn nhw adael imi wlychu fy hun yn hytrach na rhoi padell wely imi.

Ar ôl yr ymweliad â'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys, parhau wnaeth y gofal ofnadwy. Gofynnais am gael fy nhrin gan feddyg a oedd yn gyfarwydd â'm hamhariad; ond gan fod fy amhariad yn brin, gwrthodwyd hyn gan y meddyg a oedd yn fy nhrin, gan ei fod eisiau gwneud yn fawr o'r cyfle addysgu. Yr unig beth roeddwn i ei eisiau oedd gweld fy esgyrn yn gwella! Cefais sawl torasgwrn a gymerodd amser maith i wella gan nad oedd y meddyg yn gwybod beth roedd e'n ei wneud.

**Disability Wales**

# Y Confensiwn ar Ddileu Pob Math o Wahaniaethu yn erbyn Menywod

Yn ôl y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Grŵp Trawsbleidiol ar Hawliau Dynol, mae'n amlwg bod canlyniadau menywod yn parhau i fod yn waeth na chanlyniadau dynion ar draws amryfal fynegeion. Tynnodd tystiolaeth gan Rwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru sylw at achosion parhaus o drais ar sail rhywedd, anghydraddoldeb economaidd a chynrychiolaeth annigonol mewn rolau arwain. Pwysleisiodd yr ymatebwyr nad yw ymrwymiadau i sicrhau cydraddoldeb i fenywod wedi troi'n ganlyniadau nac yn hawliau cryfach.

*Mae profiadau menywod, ym mhob agwedd ar fywyd bron iawn, yn waeth na phrofiadau dynion, gan danseilio egwyddorion cydraddoldeb (a thegwch) a chyffredinolrwydd sy'n sail i bob confensiwn hawliau dynol.*

**Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru**

**Trais ar sail rhywedd**

Clywodd y Grŵp Trawsbleidiol ar Hawliau Dynol dystiolaeth am effaith trais ar sail rhywedd. Ymddengys fod oddeutu tri chwarter o droseddau trais domestig a mwy nag 80% o achosion trais rhywiol yn cael eu cyflawni yn erbyn menywod.

*"Oherwydd eu safle anghyfartal mewn termau cymdeithasol ac economaidd, mae menywod yn wynebu risg uwch o ddioddef tlodi a chaledi ariannol, yn ogystal â cham-drin ar sail rhyw, aflonyddu a thrais."*

**Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru**

Mae tystiolaeth gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn dangos diffyg taerineb o ran bwrw ymlaen ag argymhellion ynglŷn â mynd i'r afael â thrais ar sail rhywedd.

*Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ar gyfer comisiynu gwasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol; ond nid oes unrhyw adolygiad cenedlaethol o'r ddarpariaeth wedi'i gynnal. Darganfu Swyddfa Archwilio Cymru, yn 2019, y ceir bylchau yn y modd y darperir gwasanaethau ledled Cymru.*

**Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol**

**Iechyd**

Cyflwynodd Triniaeth Deg i Fenywod Cymru dystiolaeth helaeth yn ymwneud â rhwystrau mewn gofal iechyd. Disgrifiwyd tanfuddsoddi strwythurol mewn gwasanaethau iechyd menywod, sef rhywbeth a gaiff ei ddwysáu gan agweddau diystyriol:

*"Rydym yn pryderu bod tanfuddsoddi hanesyddol mewn ymchwil neu wasanaethau ar gyfer cyflyrau sy'n effeithio'n unigryw neu'n anghymesur ar fenywod a phobl a bennwyd yn fenywod ar adeg eu geni yn golygu eu bod yn fwy tebygol o ddioddef effeithiau negyddol yn sgil diffyg gofal arbenigol yn eu hardal, a bod modd i ragfarnau a rhwystrau agweddol gynyddu'r angen i geisio ail farn ynglŷn â symptomau a thriniaeth."*

**Triniaeth Deg i Fenywod Cymru**

Clywodd y Grŵp Trawsbleidiol ar Hawliau Dynol fod y rhwystrau hyn mewn perthynas â gofal iechyd annigonol yn cael effaith barhaus, ac y gallant achosi 'effaith domino' sy'n effeithio ar hawliau eraill:

*"Mae'r effeithiau'n cynnwys rhestrau aros hynod faith ledled Cymru a chymorth cyfyngedig tra mae pobl ar restrau aros o'r fath, gan arwain at ddirywiad mewn iechyd a llesiant meddwl, colli swyddi, caledi ariannol, ac effaith ganlyniadol ar deuluoedd / cenedlaethau'r dyfodol."*

**Triniaeth Deg i Fenywod Cymru**

**Tlodi**

Clywodd y Grŵp Trawsbleidiol ar Hawliau Dynol dystiolaeth ynglŷn â'r effaith anghymesur a gaiff tlodi ar fenywod, a'r effaith a gaiff hyn ar draws amryfal feysydd bywyd.

*"Mae rhieni sengl, y mwyafrif ohonynt yn fenywod, yn parhau i wynebu'r risg fwyaf o blith aelwydydd o bob math, ac mae bron i un o bob tri ohonynt yn dioddef tlodi incwm cymharol."*

**Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru**

Cyflwynodd Safety First Wales dystiolaeth rymus yn ymwneud â phrofiadau gweithwyr rhyw, a nodwyd bod eu hawliau i dai digonol, gofal iechyd, bywyd teuluol a rhyddid rhag gwahaniaethu yn cael eu gwadu'n rheolaidd.

*"Rhaid i unrhyw bolisi sy'n ceisio lleihau puteindra, gwella diogelwch a llesiant, neu alluogi gweithwyr rhyw i adael, weithio'n uniongyrchol i ymdrin â chynnydd mewn caledi, digartrefedd a dyledion, yn ogystal â diffyg cyflogau teg, cyflogau isel ac amodau gwael mewn nifer o swyddi eraill – yn enwedig rhai a gaiff eu gwneud yn draddodiadol gan fenywod."*

**Safety First Wales**

Daeth y Grŵp Trawsbleidiol ar Hawliau Dynol i'r casgliad bod anghydraddoldeb rhywedd strwythurol yn bodoli ar draws meysydd iechyd, gwaith a diogelwch menywod. Caiff ymrwymiadau i amddiffyn hawliau menywod o dan y Confensiwn ar Ddileu Pob Math o Wahaniaethu yn erbyn Menywod eu tanseilio gan fylchau mewn polisi a gweithredu; ac o ganlyniad, dyhead yn unig yw hawliau menywod.

**Stori Sara**

"Mae'r holl asiantaethau gwahanol yn meddwl na all gweithwyr rhyw fod yn rhieni da ac na ellir dibynnu arnaf gan fy mod wedi bod yn weithiwr rhyw. Mae'n esgus gwych ar gyfer unrhyw beth."

"Mae'r mwyafrif o'r menywod sy'n gweithio ar y strydoedd wedi cyrraedd sefyllfa pan maen nhw wedi colli eu plant. Mae eu plant naill ai wedi cael eu mabwysiadu pan gawson nhw eu geni neu mae'r gwasanaethau cymdeithasol wedi cymryd y plant oddi arnyn nhw'n ddiweddarach. Dydyn nhw ddim yn cael help. Does dim help i'w gael ar ôl iddyn nhw gymryd eich plant. Dydych chi ddim yn cael unrhyw gwnsela. Mae fel profedigaeth."

"Roeddwn i'n meddwl eu bod nhw i fod i wneud popeth o fewn eu gallu i gadw'r fam a'r plentyn gyda'i gilydd, ond dydyn nhw ddim yn gwneud hynny o gwbl. Yn wir, dydyn nhw'n gwneud dim i helpu'r rhiant, dim o gwbl."

**Safety First Wales**

# Y Confensiwn Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol

Clywodd y Grŵp Trawsbleidiol ar Hawliau Dynol dystiolaeth gymhellol ynglŷn â methiannau i wireddu'r hawliau a gaiff eu gwarantu o dan y Confensiwn Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol. Tai a thlodi oedd y meysydd mwyaf taer y soniwyd amdanynt. Clywodd y Grŵp Trawsbleidiol ar Hawliau Dynol dystiolaeth gyson ynglŷn â'r angen i gyflawni hawl i dai digonol.

**Tai a Digartrefedd**

Soniodd Shelter Cymru a Tai Pawb am yr ymgyrch Cefnogi'r Bil ar gyfer hawl gyfreithiol-orfodadwy i dai digonol:

*"Mae Shelter Cymru yn bartner yn yr ymgyrch ar gyfer creu Hawl i Dai Digonol yng Nghymru, a fyddai'n ymgorffori hawliau'r Cenhedloedd Unedig yng nghyfraith Cymru ac yn diwygio ein sut rydym ni'n ymdrin â chartrefi a digartrefedd – gan ysgogi cynnydd trwy ddull seiliedig ar hawliau."*

**Shelter Cymru**

**"***Mae'r gynghrair Cefnogi'r Bil wedi bod yn ymgyrchu dros ymgorffori'n llwyr hawl y Cenhedloedd Unedig i dai yng Nghymru. Rydym wedi datblygu sylfaen dystiolaeth i ddangos bod yr hawl gyfreithiol hon yn ddichonadwy yng Nghymru, bod ganddi gefnogaeth boblogaidd ymhlith y cyhoedd (77%) ac uwch-arweinwyr tai (dros 70%), a bod ganddi fodel cost a budd i arbed £2.30 am bob £1 a fuddsoddir yn y gwaith o gyflawni'r hawl."*

**Tai Pawb**

Clywodd y Grŵp Trawsbleidiol ar Hawliau Dynol am y modd mae ymrwymiad Llywodraeth Cymru i dai digonol yn methu â chyflawni'r newid trawsnewidiol sy'n angenrheidiol:

*"O ran tai a digartrefedd, mae Llywodraeth Cymru wedi llunio Papur Gwyn sy'n methu â chydnabod pwysigrwydd hawliau ac sy'n dangos diffyg dealltwriaeth o'r modd y gallai lens hawliau dynol ailfframio strategaeth Llywodraeth Cymru yn y tymor byr a'r tymor hwy ar gyfer rhoi diwedd ar yr argyfwng tai yng Nghymru."*

**Shelter Cymru**

Yn bwysicaf oll, cafodd y Grŵp Trawsbleidiol ar Hawliau Dynol dystiolaeth ynglŷn â'r effaith niweidiol a ddaw i ran pobl yng Nghymru yn sgil tai annigonol. Rhannodd rhywun sydd wedi goroesi trais domestig ei phrofiad:

*"Fy mhryder cyntaf ar ôl mynd yn ddigartref (ar ôl dianc rhag camdriniaeth ddomestig) oedd y buaswn yn byw ar y strydoedd, a gwyddwn na fuaswn yn para dau funud... Pe bawn yn gwybod bod gen i hawl gyfreithiol i gartref, buasai hynny wedi gwneud gwahaniaeth enfawr i'm gorbryder. Roeddwn i'n teimlo cymaint o gywilydd pan fu'n rhaid imi ofyn am help... Pe bawn i'n gwybod bod gennyf hawl i gartref, ni fuaswn wedi teimlo cymaint o gywilydd."*

**Prosiect Cymryd Sylw Shelter Cymru**

Soniodd Sipsiwn a Theithwyr Cymru am wahaniaethu parhaus mewn perthynas â darpariaethau tai:

*"Ceir bwlch sylweddol o hyd o ran argaeledd darpariaethau tai digonol ar gyfer cymunedau Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru. Ceir bwlch mawr rhwng nifer y safleoedd cyfreithlon a diogel a nifer y teuluoedd sydd angen rhywle i fyw. Lle mae safleoedd i'w cael, yn aml maent wedi'u lleoli mewn amgylcheddau gwael, weithiau ger peryglon amgylcheddol. Mae gorlenwi i'w weld yn gyffredin, ac mae teuluoedd yn gorfod byw mewn amodau cyfyng, gan gynyddu perygl tân gan fod yn rhaid parcio'r trelars yn rhy agos at ei gilydd oherwydd diffyg lle."*

**Sipsiwn a Theithwyr Cymru**

**Tlodi a Hanfodion**

Cyflwynodd Sefydliad Bevan a Plant yng Nghymru dystiolaeth ddigamsyniol ynglŷn ag effaith tlodi a diffyg hanfodion:

*"Mae nifer o blant yn byw mewn teuluoedd sydd islaw lefel dderbyniol ar gyfer eu goroesiad a'u datblygiad iach. Bydd rhwystrau'n cynnwys diffyg incwm teuluol i ddarparu'r holl hanfodion sylfaenol – efallai oherwydd diffyg incwm i gynnal y teulu uwchlaw tlodi, cyflogau a/neu fudd-daliadau isel, gyda chyllidebau o dan fwy o bwysau yn sgil pwysau costau byw ar ôl cyni a covid, yn ogystal â chynnydd mewn prisiau ynni."*

**Plant yng Nghymru**

*"Tlodi plant a diffyg hanfodion (bwyd, yn cynnwys mynediad cyfyngedig at fanciau bwyd, hanfodion sylfaenol yn y cartref) – mae mwy na 3 o bob 10 plentyn yn byw mewn tlodi, a'r disgwyl yw y bydd y niferoedd yn cynyddu."*

**Sefydliad Bevan**

Clywodd y Grŵp Trawsbleidiol ragor o dystiolaeth ynglŷn â chroestoriadedd tlodi, hawliau ffoaduriaid a cheiswyr lloches a hawliau plant:

*"Ni all rhai rhieni sy'n ceisio lloches fforddio talu am gludiant i'r ysgol ar gyfer eu plant (mewn ymgynghoriad diweddar ar gyfer Llywodraeth Cymru, dywedodd un cyfranogwr ei fod yn defnyddio addysg ar-lein)."*

**Sefydliad Bevan**

**Iechyd a Dewis Cleifion**

Esboniodd Triniaeth Deg i Fenywod Cymru y modd y gall penderfyniadau a strwythurau'n ymwneud â chyllido gwasanaethau cyhoeddus danseilio'r hawl i iechyd:

*"Mae'r modd y caiff byrddau iechyd eu bloc-ariannu yng Nghymru yn golygu na cheir rhyw lawer o gymhelliant i weithio ar y cyd / ar draws rhanbarthau... Pan gaiff gwasanaethau arbenigol eu lleoli mewn un bwrdd iechyd yn unig, dim ond cleifion yn y lleoliad hwnnw a all gael gafael ar y gwasanaethau, felly ceir sefyllfa 'loteri cod post' mewn perthynas â gofal iechyd."*

**Triniaeth Deg i Fenywod Cymru**

"Tynnodd Mind Cymru sylw at y modd mae tlodi a gwahaniaethu yn croestorri gydag iechyd meddwl gwael:

*"Yn aml, mae pobl sy'n wynebu tlodi, gwahaniaethu neu ymyleiddio yn dioddef canlyniadau gwaeth o ran iechyd meddwl, ac maent yn wynebu rhwystrau mwy o ran cael gafael ar ofal amserol, priodol, sy'n gymwys yn ddiwylliannol. Mae'r gwahaniaethau hyn yn tanseilio egwyddorion craidd sy'n berthnasol i hawliau dynol, fel urddas, ymreolaeth a chydraddoldeb."*

**Mind Cymru**

Daeth y Grŵp Trawsbleidiol ar Hawliau Dynol i'r casgliad mai rhywbeth i'w ddyheu o hyd yw hawliau o dan y Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol. Mae'r Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol yn amddiffyn rhai o'n hawliau sylfaenol, fel yr hawl i safonau byw digonol, yn cynnwys bwyd digonol, tai digonol, nawdd cymdeithasol, addysg, a'r lefel uchaf y gellir ei chyflawni o ran iechyd corfforol ac iechyd meddwl. Mae mynediad at dai a gofal iechyd digonol yn digwydd yn anghyson, ac mae'n ddibynnol ar ddaearyddiaeth; ac mae tlodi'n cyfyngu mwy fyth ar yr hawl i dai a safonau byw digonol.

**Stori Sara**

Mae Sara wedi bod yn ddigartref ers dwy flynedd. Ar hyn o bryd, mae'n byw mewn gwesty. Cyn hynny, bu'n byw mewn llety gwely a brecwast am naw mis ar ôl cyfnod yn symud o soffa i soffa. Mae'n 57 mlwydd oed.

Mae Sara yn dioddef o ddiabetes Math 1, mae'n cael inswlin ac mae'n dilyn cynllun rheoli bwyd. Yn ddiweddar, bu'n rhaid iddi aros yn yr ysbyty am bedwar diwrnod oherwydd pwl diabetig pan syrthiodd lefel ei siwgr gwaed yn beryglus o isel. Nid oes unrhyw gyfleusterau coginio i'w cael yn y llety gwely a brecwast mae Sara yn byw ynddo, felly mae hi wedi cael oergell yn ei hystafell er mwyn iddi allu storio'i hinswlin yn ddiogel. Pan mae hi'n wael, mae'n aml yn treulio noson neu ddwy gyda'i chwaer, er mwyn iddi allu gorffwys a bwyta'n dda.

*"Rydw i fel arfer yn mynd i dŷ fy chwaer i gael bwyd. Mae hi'n coginio imi ac yn rhoi brechdanau imi rhag ofn y byddaf angen bwyta yn ystod y nos. Mae hi'n poeni na fydd modd imi ddod o hyd i fwyd pan fyddaf ei angen, ac y bydda i'n cael pwl diabetig."*

**Sefydliad Bevan**

# Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Ddiddymu Gwahaniaethu ar sail Hil

Cafodd y Grŵp Trawsbleidiol ar Hawliau Dynol dystiolaeth sy'n dangos bod anghydraddoldeb hil wedi'i ymwreiddio o hyd yng Nghymru. Mae tystion yn disgrifio anghydraddoldebau hil parhaus ledled addysg, iechyd, cyflogaeth a thai. Hefyd, er bod Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, clywodd yr ymchwiliad bod y cynllun hwnnw'n cael ei roi ar waith mewn modd anghyson.

**Anghydraddoldeb a Hiliaeth Strwythurol**

Dywedodd Race Equality First wrth yr ymchwiliad fod anghydraddoldeb hil yn rhywbeth systemig:

*"Mae hiliaeth strwythurol yn parhau i lywio mynediad at wasanaethau, tai, gofal iechyd a chyflogaeth, ac mae'n parhau i fod yn un o'r prif rwystrau o ran gwireddu hawliau dynol yng Nghymru gan arwain at erydu ymddiriedaeth pobl ethnig leiafrifol mewn cyrff cyhoeddus."*

**Race Equality First**

Hefyd, roedd Race Equality First yn pryderu nad yw diddymu gwahaniaethu ar sail hil wedi cael yr un flaenoriaeth: mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ymgorffori'r Confensiwn ar Ddileu Pob Math o Wahaniaethu yn erbyn Menywod a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau, ond nid yw wedi ymrwymo i ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Ddiddymu Gwahaniaethu ar sail Hil:

*"Ni wnaed ymrwymiad o'r fath ynglŷn â'r Confensiwn Rhyngwladol ar Ddiddymu Pob Math o Wahaniaethu ar sail Hil. Mae hyn yn destun pryder mawr, yn enwedig o ystyried Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru a'r adborth cyson gan ymatebwyr ar y cynllun drafft lle tynnir sylw at yr angen i integreiddio ac ymwreiddio strategaethau, polisïau a deddfwriaethau presennol yn y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, yn cynnwys y Confensiwn Rhyngwladol ar Ddiddymu Pob Math o Wahaniaethu ar sail Hil."*

**Race Equality First**

**Hawliau ffoaduriaid a cheiswyr lloches**

Clywodd y Grŵp Trawsbleidiol ar Hawliau Dynol dystiolaeth lem ynglŷn â chwalfa cymorth cyfreithiol ar gyfer achosion mewnfudo a lloches yng Nghymru – rhywbeth sydd wedi creu diffeithwch cyngor, gan effeithio ar hawliau ceiswyr lloches a ffoaduriaid yng nghymunedau Cymru. Er nad yw Llywodraeth Cymru yn uniongyrchol gyfrifol am yr ysgogiadau polisi hyn, gallant effeithio ar hawliau ffoaduriaid a cheiswyr lloches i gael mynediad at eu hawliau mewn meysydd datganoledig, yn cynnwys tai.

*"Un o'r argyfyngau hawliau dynol mwyaf taer ar gyfer ceiswyr lloches a ffoaduriaid yng Nghymru yw chwalfa cymorth cyfreithiol mewnfudo a lloches. Mae hyn yn effeithio'n fawr ar fynediad at gyfiawnder."*

**Dr Emma Nishio**

Mynegwyd pryderon tebyg yn y dystiolaeth a gyflwynwyd gan Sefydliad Bevan

*"Ni all pobl gadw nac arfer eu hawliau cyfreithiol. Does yna fawr ddim cynrychiolaeth ar gyfer apeliadau mewnfudo yng Nghymru. Mewn astudiaeth ddiweddar, fe wnaeth 40% o bobl ag achos cyfreithiol cyfredol fethu â dod o hyd i rywun i'w cynrychioli."*

**Sefydliad Bevan**

Er bod sefydliadau wedi camu i'r adwy i ddarparu rhagor o gymorth, clywodd y Grŵp Trawsbleidiol ar Hawliau Dynol nad oes gan y sefydliadau hynny ddigon o gapasiti i fodloni maint yr her.

*"Mae Asylum Justice wedi helpu i lenwi'r bwlch mewn cymorth cyfreithiol lloches yng Nghymru, gan ymgymryd â llawer iawn o waith yn ymwneud ag apeliadau lloches yng Nghymru – gan gyflawni cyfradd lwyddiant uchel a chan sicrhau bodlonrwydd ymhlith y cleientiaid. Ond mae chwalfa'r sector cymorth cyfreithiol mewnfudo a lloches yng Nghymru wedi effeithio ar gapasiti'r sefydliad i wneud hyn."*

**Dr Emma Nishio**

Yn nhystiolaeth Race Equality First, nodwyd bod yr hawl i dai digonol yn destun pryder.

*Ni chaiff yr hawl i dai digonol ei gwireddu'n llwyr, yn enwedig i geiswyr lloches, ffoaduriaid, a chymunedau Sipsiwn a Theithwyr – caiff nifer ohonynt eu rhoi mewn cartrefi anniogel neu gartrefi is na'r safon.*

**Race Equality First**

**Heb Hawl i Gyllid Cyhoeddus**

Galwodd Sefydliad Bevan am strategaeth benodol yn ymwneud â dim hawl i gyllid cyhoeddus, a nodwyd bod y polisïau hyn yn cyfyngu ar hawliau ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

"Mae cyfyngiadau mewn perthynas â dim hawl i gyllid cyhoeddus yn ysgogi tlodi ac yn caethiwo teuluoedd mewn tlodi am gyfnodau maith."

**Sefydliad Bevan**

Daeth y Grŵp Trawsbleidiol ar Hawliau Dynol i'r casgliad bod anghydraddoldebau hil wedi'u hymwreiddio o hyd yng Nghymru, gan effeithio ar dai, gofal iechyd, cyflogaeth a mynediad at gyfiawnder. Er bod y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn rhywbeth y dylid ei groesawu, mae angen ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Ddiddymu Gwahaniaethu ar sail Hil yn llwyr er mwyn mynd i'r afael â gwahaniaethu strwythurol sydd wedi ymwreiddio.

**Stori Taliesin**

Roedd Taliesin yn 17 oed pan gyrhaeddodd y DU. Cafodd ei gyflwyno i gynghorydd mewnfudo anrheoleiddiedig, a gymerodd arno ei fod yn gyfreithiwr. Aeth y dyn hwn â Thaliesin i'r Swyddfa Gartref i hawlio lloches, gan gymryd arno mai ef oedd ei warcheidwad – sef term nad oedd Taliesin yn ei ddeall.

"Fe es i i'r Swyddfa Gartref ar gyfer y cyfweliad cyntaf... a gofynnwyd imi ddewis rhwng aros gyda fy nghyfreithiwr [a llety cychwynnol]... aeth fy nghyfreithiwr gyda mi. Dywedodd mai ef oedd fy ngwarcheidwad. Roedd yn fy nhwyllo. Roedd e eisiau'r arian y byddai'r llywodraeth yn ei roi i'r gwarcheidwad, a fyddai'n gofalu amdanaf ac yn rhoi arian imi. Ond wnaeth hynny ddim digwydd. Cymerodd yr arian a chefais fy ngadael ar fy mhen fy hun yn Llundain. Dywedodd: 'Os gwnaiff unrhyw beth ddigwydd, fe wnân nhw fy ffonio, a byddaf yn gadael iti wybod.'

"Felly, mae'r arian yn dal i ddod a dw i erioed wedi cael unrhyw beth... Er fy mod wedi hawlio lloches, ni chefais mohono... Yn ôl pobl y gwnes i eu cyfarfod yn Llundain, a arferai hawlio lloches o 'mlaen i, doedd hyn ddim yn normal... Ar ôl chwe mis, fe wnes i ddarganfod nad oedd hyn yn arferol. Rydw i wedi ffonio'r Swyddfa Gartref eto a dweud 'Does gen i ddim byd. Dim ond pum punt yn fy mhoced, ac unlle i aros.'

"Yna, dywedodd yr unigolyn yn y Swyddfa Gartref: 'Felly, lle wyt ti wedi bod yn byw?... Beth sydd wedi digwydd?'

"Allwn i ddim dweud unrhyw beth. Dywedais, 'Beth sy'n digwydd? Dw i ddim yn gwybod. Dim ond 17 oed ydw i...'"

Dengys stori Taliesin pa mor agored i niwed y gall plant fod yn y system loches. Ymddengys nad aeth neb ati i wirio llesiant Taliesin drwy gydol y chwe mis a dreuliodd yn byw ar y strydoedd tra'r oedd i fod yng ngofal "gwarcheidwad" nad oedd yn perthyn iddo.

**Sefydliad Bevan**

# Y Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn

Er bod Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i weinidogion roi 'sylw dyladwy' i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, clywodd y Grŵp Trawsbleidiol ar Hawliau Dynol yn gyson nad yw hyn yn llwyddo i ddiogelu hawliau plant yn ddigonol. Mae plant yng Nghymru yn dal i fethu â gorfodi eu hawliau'n uniongyrchol pan gânt eu torri.

*"Mae bron i un o bob tri phlentyn yn byw mewn tlodi – felly caiff eu hawl i safon fyw ddigonol ei thorri. Mae plant yn gorfod aros am gyfnodau maith i gael triniaeth iechyd – felly torrir eu hawl i'r safon iechyd uchaf y gellir ei chyflawni. Mae'r heddlu yn noeth-chwilio plant – triniaeth ddiraddiol. Caiff plant eu hamddifadu o'u rhyddid mewn lleoliadau anrheoleiddiedig neu anghofrestredig – enghreifftiau posib o dorri'r hawl i ryddid, a thriniaeth annynol neu ddiraddiol. Caiff plant o rai grwpiau arbennig eu heithrio'n anghymesur o'r ysgol – enghraifft o dorri'r hawl i ddim gwahaniaethu."*

**Canolfan Gyfreithiol y Plant Cymru**

**Ymgorffori ac Atebolrwydd**

Esboniodd y Comisiynydd Plant fod bylchau yn y model cyfredol yn golygu nad yw hawliau plant yn cael eu hamddiffyn yn ddigonol. Daeth hyn i'r amlwg yn ystod adolygiad barnwrol i herio penderfyniad gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â phrydau ysgol am ddim yn ystod gwyliau ysgol.

*"Yn yr achos hwnnw, methodd [Llywodraeth Cymru] â chydymffurfio â'i dyletswydd o dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 i roi sylw dyladwy i ofynion Rhan 1 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn oherwydd diffyg Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant wrth benderfynu rhoi'r gorau i ariannu'r ddarpariaeth prydau ysgol am ddim yn ystod gwyliau. Ond yn y pen draw, nid arweiniodd hyn at ganlyniad gwahanol i blant a theuluoedd oherwydd cyfyngiadau'r model sylw dyladwy sydd gennym yng Nghymru ar hyn o bryd o dan Fesur 2011."*

**Comisiynydd Plant Cymru**

Hefyd, tynnodd Mind Cymru sylw at gyfyngiadau'r gyfraith gyfredol:

"Er bod y Mesur yn gam hollbwysig yn 2011, mae ei ddulliau gorfodi'n gyfyngedig ac nid yw'n rhoi cyfle uniongyrchol i blant hawlio'u hawliau."

**Mind Cymru**

**Tlodi ac Anghydraddoldeb**

Clywodd y Grŵp Trawsbleidiol ar Hawliau Dynol yn gyson am bryderon ynglŷn â'r ffaith mai tlodi plant – sydd ymhlith yr uchaf yn y DU o hyd – oedd y prif rwystr o ran gwireddu hawliau plant yng Nghymru.

*"Yng Nghymru y gwelir un o'r cyfraddau uchaf o blith holl wledydd y DU mewn perthynas â thlodi plant, ac mae 34% o blant yn byw mewn tlodi."*

*Sefydliad Bevan*

*"Ni chaiff hawl pobl i fyw heb dlodi ei gwireddu. Mae lefelau tlodi plant yn cynyddu eto yng Nghymru, ac maent yn parhau i fod ymhlith y lefelau uchaf trwy holl wledydd y DU."*

**Plant yng Nghymru**

**Addysg a Chyfranogi**

Disgrifiodd Anabledd Dysgu Cymru sut caiff hawliau plant anabl eu gwadu mewn ysgolion:

*"Yn ogystal â chael eu heithrio o'r ysgol, mae plant ag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth yn dioddef ataliaeth ac arferion cyfyngol mewn ysgolion. Mae'r ddwy elfen hyn yn groes i Erthygl 23 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, sy'n nodi y dylai plant anabl gael gofal a chymorth arbennig er mwyn iddynt allu byw bywydau llawn ac annibynnol."*

**Anabledd Dysgu Cymru**

Mynegodd UNICEF UK bryderon ynglŷn â'r ymwybyddiaeth isel ymhlith plant, gan ddweud bod angen cryfhau addysg hawliau dynol ar bob lefel:

*"Ar sail profiad UNICEF UK o weithio gyda mwy na 350 o ysgolion yng Nghymru, gwyddom nad yw nifer helaeth o blant a phobl ifanc yn gwybod digon am eu hawliau dynol, fel y'u nodir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Dywed arweinwyr ysgol fod cyflwyno gwybodaeth a dealltwriaeth o hawliau plant yn arwain yn aml at gynyddu atgyfeiriadau diogelu, ynghyd ag ymdeimlad cynyddol o 'berthyn' i gymuned yr ysgol ac ymdeimlad mwy o ymgysylltu a galluogedd ar draws pob agwedd ar fywyd yr ysgol."*

**UNICEF UK**

Tynnodd Dyneiddwyr Cymru sylw at yr effaith a gaiff addoli ar y cyd ar blant nad ydynt yn grefyddol:

*"Yn aml, caiff plant a theuluoedd nad ydynt yn grefyddol eu heithrio rhag cymryd rhan yn llwyr ym mywyd yr ysgol, ac nid oes ganddynt lawer o ffyrdd i fynnu eu hawliau."*

**Dyneiddwyr Cymru**

Pwysleisiodd ProMo Cymru y rhwystrau sy'n wynebu plant a phobl ifanc wrth gael gafael ar eiriolaeth:

*"Er y sôn am eiriolaeth a ymgorfforir mewn deddfwriaeth a pholisi, e.e. y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, nid yw buddsoddiad mewn adnoddau digonol, cynllun gwasanaethau a llwybrau, comisiynu, craffu ac atebolrwydd yn gydnaws â'r rhethreg."*

**ProMo Cymru**

**Iechyd Meddwl**

Hefyd, clywodd yr ymchwiliad dystiolaeth gan bobl ifanc ynglŷn â phrofiadau niweidiol wrth bontio o wasanaethau iechyd meddwl plant i wasanaethau iechyd meddwl oedolion:

*“Pan symudais o CAMHS i wasanaethau oedolion, roeddwn i’n teimlo fel pe bawn wedi syrthio oddi ar glogwyn. Cefais fy ngadael heb gymorth ar adeg pan oeddwn i ei angen fwyaf.”*

**Mind Cymru**

Er bod Cymru wedi bod yn arloeswr o ran cydnabod hawliau plant, daeth y Grŵp Trawsbleidiol ar Hawliau Dynol i’r casgliad na all Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn gyflawni ei addewidion yn llwyr gan nad yw wedi cael ei ymgorffori’n llwyr. Mae tlodi, allgáu, rhwystrau o ran cael addysg deg, a diffyg rhwymedïau gorfodadwy, yn golygu bod hawliau nifer o blant yn parhau i fod yn ddamcaniaethol yn hytrach nag yn real.

**Stori Steve**

*“Rydym mewn twll o le ar hyn o bryd, rydym wedi bod yno ers tair blynedd yn barod.”*

Mae Steve yn byw gyda’i un ar ddeg o blant, ei bartner a’u ci. Mae oedran y plant yn amrywio o blentyn bach i blentyn un ar hugain oed. Ar hyn o bryd, maent yn byw mewn dau fflat sy’n sownd yn ei gilydd ac sy’n eiddo i’r awdurdod lleol.

Yn ogystal â’r ffaith bod yr eiddo’n llawer rhy fach, mae yna lawer o broblemau eraill. Mae un nenfwd wedi syrthio ac mae gan yr holl ystafelloedd lwydni du (ceisiodd y cyngor ei lanhau, ond dychwelodd ymhen rhai wythnosau). Yn y gaeaf, bu’n rhaid iddynt roi dillad yn y bin sbwriel oherwydd lleithder. Roeddynt wedi rhoi gwybod am grac yng nghefn y tŷ a’r ffaith bod y to’n gollwng dŵr yn y bedwaredd ystafell wely lle roedd y plant yn cysgu. Mae’r crac wedi gwaethygu erbyn hyn, mae dŵr yn dod i mewn i’r tŷ ac mae rhan o’r nenfwd wedi syrthio – felly nid oes modd defnyddio’r ystafell wely mwyach.

**Sefydliad Bevan**

# Argymhellion

Er bod cynnydd wedi cael ei wneud o ran cydnabod pa mor bwysig yw hawliau dynol, mae'r ymchwiliad wedi dangos bod gormod o bobl yn parhau i brofi eu hawliau dynol fel addewidion yn hytrach nag fel ffyrdd o'u hamddiffyn. Hawliau heb rwymedïau ydynt. Maent y parhau i fod yn ddyhead gan nad oes modd eu gorfodi'n uniongyrchol. Nid yw'r ymrwymiadau wedi cael eu troi'n fframweithiau cyfreithiol, yn adnoddau nac yn gyfundrefnau atebolrwydd a all eu gwarantu'n ymarferol.

Mae pobl anabl yn wynebu rhwystrau systemig o ran addysg, iechyd a byw'n annibynnol. Mae trais ar sail rhyw, tlodi ac anghydraddoldebau iechyd yn parhau i effeithio'n anghymesur ar fenywod. Mae tlodi yn tanseilio hawliau pobl i safonau byw digonol, tai digonol a chyfleoedd i gyfranogi'n llawn mewn cymdeithas. Mae hiliaeth strwythurol yn effeithio ar fynediad at dai, gofal iechyd, cyfiawnder a chyflogaeth. Ni all ffoaduriaid na cheiswyr lloches arfer eu hawliau oherwydd polisïau cyfyngol a chwalfa cymorth cyfreithiol.

Er gwaethaf argymhellion mynych gan y Cenhedloedd Unedig, pwyllgorau'r Senedd, ymchwil annibynnol a chymdeithas sifil, nid yw Llywodraeth Cymru wedi cyflawni rhwymedigaethau ei Rhaglen Lywodraethu i ymgorffori cytuniadau allweddol y Cenhedloedd Unedig yng nghyfraith Cymru. Gan fod etholiad y Senedd 2026 yn nesáu, bydd y cyfrifoldeb nawr yn gorwedd ar ysgwyddau llywodraeth nesaf Cymru i sicrhau bod yr hawliau o dan sylw yn cael eu gwireddu.

O'r herwydd, mae'r Grŵp Trawsbleidiol yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

**1. Cyflwyno Bil Hawliau Dynol (Cymru)**

- Ymgorffori cytuniadau rhyngwladol hollbwysig yng nghyfraith Cymru, yn cynnwys Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau, y Confensiwn ar Ddileu Pob Math o Wahaniaethu yn erbyn Menywod, y Confensiwn Rhyngwladol ar Ddiddymu Pob Math o Wahaniaethu ar sail Hil, y Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.
- Sicrhau bod modd gorfodi hawliau'n ymarferol a sicrhau y bydd rhwymedïau ar gael pan gaiff hawliau eu torri.

**2. Cryfhau atebolrwydd a gweithredu**

- Sicrhau bod y Senedd a chomisiynwyr annibynnol yn mynd ati'n rheolaidd ac mewn modd ystyrlon i graffu ar y cynnydd, er mwyn cryfhau hawliau dynol.
- Rhoi adnoddau i gyrff cyhoeddus gogyfer cyflawni rhwymedigaethau'n ymwneud â hawliau, gyda llinellau atebolrwydd clir.

**3. Rhoi blaenoriaeth i weithredu trawsbynciol ar dai, tlodi ac anghydraddoldeb**

- Cyflwyno dull seiliedig ar hawliau i fynd i'r afael â thlodi plant.
- Sicrhau hawl gyfreithiol-orfodadwy i dai digonol.

**4. Ymwreiddio cyfranogiad grwpiau yr effeithir arnynt**

- Sicrhau bod gan bobl anabl, menywod, pobl hil-ddiffiniedig, plant a phobl ifanc, a phobl â phrofiad bywyd o dlodi neu loches, rôl ganolog yn y gwaith o lunio, gweithredu a monitro polisïau.

**5. Cyflawni ymrwymiadau presennol heb ragor o oedi**

- Dylai Llywodraeth Cymru fynd ati'n syth i bennu cynllun clir, a chanddo derfyn amser pendant, i gyflawni ymrwymiadau ei Rhaglen Lywodraethu mewn perthynas ag ymgorffori.
- Dylai mesurau interim gryfhau Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant, Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Dynol, gan sicrhau bod y rhain yn llywio penderfyniadau'n uniongyrchol.

Mae gan Gymru gyfle i arwain y ffordd ar hawliau dynol yn y DU. Mae'r dystiolaeth a gafwyd trwy'r ymchwiliad hwn yn dangos bod yna gyfle i gyflwyno newidiadau trawsnewidiol, ond bod angen eu cyflwyno ar frys. Byddai Deddf Hawliau Dynol (Cymru), ochr yn ochr â gweithredu ac atebolrwydd penodedig, yn sicrhau y byddai modd gwireddu hawliau, yn ogystal â'u cydnabod, ym mywydau beunyddiol pobl ledled Cymru.

# Atodiad 1: Sefydliadau ac unigolion a gyflwynodd dystiolaeth

Dymuna'r Grŵp Trawsbleidiol ar Hawliau Dynol ddiolch i'r sefydliadau canlynol am gyflwyno tystiolaeth ar gyfer ein hymchwiliad.

- Amnesty International UK
- Sefydliad Bevan
- Plant yng Nghymru
- Comisiynydd Plant Cymru
- Canolfan Gyfreithiol y Plant Cymru
- Anabledd Cymru
- Dr Emma Nishio
- Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
- Triniaeth Deg i Fenywod Cymru
- Sipsiwn a Theithwyr Cymru
- Ymgyrchwyr dros addysg gynhwysol
- Anabledd Dysgu Cymru
- Mind Cymru
- Y Rhwydwaith Rhieni a Gofalwyr
- ProMo Cymru
- Race Equality First
- Safety First Wales
- Shelter Cymru
- Tai Pawb
- UNICEF UK
- Dyneiddwyr Cymru
- Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru

Nid yw hwn yn gyhoeddiad swyddogol gan y Senedd. Nid yw wedi'i gymeradwyo gan y Senedd nac unrhyw un o'i phwyllgorau. Grwpiau anffurfiol yw Grwpiau Trawsbleidiol yn y Senedd ac maent yn rhoi cyfle i Aelodau o bob plaid, sefydliadau allanol ac aelodau'r cyhoedd i gyfarfod a thrafod achos neu bwnc penodol sydd o ddiddordeb iddynt. Barn y Grŵp a fynegir yn y ddogfen hon.

**Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan Gomisiwn y Senedd, o gronfeydd cyhoeddus.**